# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Ddementia

## Cofnodion: Cyfarfod Mehefin 2017

Ystafelloedd Seminar 1 a 2, Adeilad y Pierhead
12:30 – 1:25pm, Dydd Mawrth 13 Mehefin 2017
Cadeirydd: Lynne Neagle AC
Pwnc trafod: Gofal diwedd oes ar gyfer pobl yr effeithir arnynt gan ddementia

### Yn bresennol

Lynne Neagle AC (Cadeirydd); Hannah Blythyn AC; Dr Dai Lloyd AC; Mark Isherwood AC; Rhun ap Iorwerth AC; Owen Jones (ar gyfer Jayne Bryant AC); Joshua Bell (ar gyfer Hannah Blythyn AC); Kelly Preston (ar gyfer Alun Davies AC)

Sue Phelps, Ed Bridges, Sophie Douglas (Cymdeithas Alzheimer Cymru - ysgrifenyddiaeth i'r grŵp trawsbleidiol); Monica Reardon (Marie Curie); Dr Rosslyn Offord (Cymdeithas Seicolegol Prydain); Claire Hardcastle (Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd); Nicola Davis-Job (RCN Cymru); Nesta Lloyd-Jones (Cydffederasiwn GIG Cymru); Iwan Hughes (Cymdeithas Fferyllol Frenhinol); Adrian Neal (DCP Cymru, Cymdeithas Seicolegol Prydain); Rachel Niblock (DEEP).

Linda Willis, Adele Morgan, Ceri Higgins, Nigel Hullah (pobl yr effeithir arnynt gan ddementia / gofalwyr / gwirfoddolwyr)

### Croeso gan y Cadeirydd ac ymddiheuriadau

- **Croesawodd Lynne Neagle AC** bawb i'r cyfarfod
- Ymddiheuriadau: Simon Thomas AC

### Cyflwyniad ar ofal diwedd oes ar gyfer pobl yr effeithir arnynt gan ddementia

**Monica Reardon** (Marie Curie)

- Rhwystrau i ofal diwedd oes ar gyfer pobl sydd â dementia - nid yw pobl â dementia yn 'addas' i fodelau gwasanaeth traddodiadol, mae llawer o'r rhain wedi cael eu cynllunio ar gyfer pobl sy'n marw o ganser ac maent yn dilyn llwybr gwahanol.
- Cynllunio ar gyfer marwolaeth - cael y 'sgyrsiau anodd', rhagdybio gallu'r person o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol, mae'n bwysig bod gweithwyr proffesiynol yn deall beth yw goblygiadau ymarferol hyn.
- Cymorth i farw - gall agweddau a phryderon tybiedig fod yn rhwystr i dderbyn gofal

### Trafodaeth

- Soniodd **Nigel Hullah, Ceri Higgins, Adele Morgan a Linda Willis** am faterion a ddeilliodd o'u profiad personol o fyw gyda rhywun neu ofalu am rywun â dementia:
    - o Pwysigrwydd y 'sgwrs anodd' - a bod pobl broffesiynol yn sicrhau eu bod yn trafod diwedd oes tra mae'r person sydd â dementia yn gallu gwneud hyn;
    - o Diffyg seibiant ar gyfer gofalwyr ledled Cymru;
    - o Diffyg dealltwriaeth ymysg gweithwyr iechyd proffesiynol bod dementia yn salwch angheuol
    - o Pwysigrwydd cael cymorth i ofalwyr ar ôl i berson â dementia farw - siarad am y 'gwacter' sy'n dilyn a'u bod heb unrhyw gefnogaeth;

- o Pwysigrwydd perthynas gefnogol gyda meddyg teulu i ddechrau cynllunio ar gyfer diwedd oes.

- Soniodd **Dr Rosslyn Offord** (Cymdeithas Seicolegol Prydain) am yr heriau o ran penderfynu pryd a sut i ddechrau cynllunio ar gyfer diwedd oes, ac nad oes yr un dull sy'n gyffredin ar gyfer pawb. Gofynnodd a allai cymorth fod ar gael gan sefydliadau megis Marie Curie ar gyfer gweithwyr proffesiynol nad ydynt yn gweithio yn uniongyrchol â gofal diwedd oes. (Esboniodd **Monica Reardon** fod hyn yn rhywbeth y mae Marie Curie yn ei ystyried ar gyfer y dyfodol).

- Soniodd **Sue Phelps** (Cymdeithas Alzheimer Cymru) am ba mor bwysig oedd cydweithio, a chanmolodd wasanaeth newydd ym Mlaenau Gwent sy'n cael eu cynnal ar y cyd rhwng Cymdeithas Alzheimer Cymru a Hosbis y Cymoedd - Gweithwyr Cymorth Dementia a Nyrsys Gofal Lliniarol yn gweithio gyda'i gilydd. Trafodwyd hefyd y bartneriaeth gyda Cruse Bereavement Care, sy'n rhoi cymorth i ofalwyr pobl â dementia yn ystod pob cyfnod o'r broses alaru (mae'n bosibl iddi ddechrau cyn i'r person â dementia farw).

- Soniodd **Owen Jones** (ar gyfer Jayne Bryant AC) am yr anghydraddoldeb rhwng, er enghraifft, cleifion canser a phobl â dementia - mae pobl sydd â chanser yn aml yn dechrau cynllunio ar gyfer diwedd oes yn gynt o lawer na phobl â dementia.

## Awgrymiadau ar gyfer pynciau i'w trafod yng nghyfarfodydd y grŵp trawsbleidiol yn y dyfodol.

- **Gwasanaethau pontio'r cenedlaethau** - gwahodd pobl ifanc i gymryd rhan mewn prosiect sy'n gweithio gyda phobl â dementia i rannu eu profiadau
- **Gofalwyr pobl â dementia** - yr heriau a wynebir
- **Hawliau dynol**

## Unrhyw fater arall

Penodwyd Sophie Douglas (Cymdeithas Alzheimer Cymru) i fod yn rhan o ysgrifenyddiaeth y grŵp trawsbleidiol.

## Camau gweithredu ar gyfer y cyfarfod nesaf / dyddiad y cyfarfod nesaf

***Cam i'w gymryd*** - Sophie Douglas (Cymdeithas Alzheimer Cymru) i anfon negeseuon e-bost i geisio rhagor o awgrymiadau ar gyfer pynciau i'w trafod yn y dyfodol

Dyddiadau’r cyfarfodydd nesaf:

- Dydd Mawrth 26 Medi, 12:30pm (Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol) - Tŷ Hywel